**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd**
**Dydd Iau 22 Awst 2019 13:00 – 16:00**
**Cartrefi Cymunedol Cymru, 2 Ocean Way, Caerdydd, CF25 5TG**

**Cofnodion y Cyfarfod**

<u>Yn bresennol:</u>

| | |
|---|---|
| Jon Sparkes | Prif Weithredwr Crisis (Cadeirydd) |
| Katie Dalton | Cyfarwyddwr Cymorth Cymru |
| Peter Mackie | Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLlLC |
| Clare Budden | Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn |
| Clarissa Corbisiero | Cyfarwyddwr Polisi Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Siân Aldridge | The Wallich (yn cynrychioli Lindsay Cordery-Bruce) |
| Nick Morris | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Crisis |
| Sarah Rhodes | Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru |
| Mark Price | Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Bonwick | Tîm Polisi Digartrefedd, Llywodraeth Cymru |

<u>Ymddiheuriadau:</u>

| | |
|---|---|
| Tamsin Stirling | Arbenigwr Tai Llawrydd |
| Frances Beecher | Prif Weithredwr Llamau |
| John Puzey | Prif Weithredwr Shelter Cymru |
| Lindsay Cordery-Bruce | Prif Weithredwr The Wallich |
| Bonnie Navarra | Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Glynne Roberts | Rheolwr Rhaglenni BIP Betsi Cadwaladr |
| Gaynor Toft | Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Sir Ceredigion |
| Emma Williams | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |

Croesawodd JS bawb i drydydd cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf gweithdy. Rhannwyd yr aelodau yn ddau grŵp ar wahân a gofynnwyd i'r ddau grŵp ystyried y cwestiynau canlynol am tua 45 munud yr un cyn cylchdroi rhwng cwestiynau:

<u>Cwestiwn 1:</u> <u>Beth y gallwn ei wneud nawr yn y byrdymor (rhwng nawr a mis Mawrth nesaf) i leihau achosion o gysgu allan?</u>

Cwestiwn 2: Pa fesurau atal trydyddol y dylid eu mabwysiadu i geisio atal pobl rhag dechrau cysgu allan?

Rhoddwyd yr adborth canlynol yn ystod sesiwn lawn yn y rhan olaf o'r cyfarfod.

Cwestiwn 1

**i/ Ar ba ardaloedd y dylem ganolbwyntio**

- Dylid ystyried pob ardal ond ceisio canolbwyntio adnoddau mewn ardaloedd lle ceir lefel uchel o gysgu allan ond hefyd rai ardaloedd gwledig.

**ii/ Gweithwyr allgymorth**

- Rhoi ymdeimlad o rymuso drwy gyllidebau personol.
- Angen elfen o symudedd.
- Angen athroniaeth "os yw'n gyfreithlon, yn foesol ac yn foesegol – ewch amdani", er mwyn annog creadigrwydd.

**iii/ Llety argyfwng**

- Mae'n bwysig cael y math cywir o lety ond cydnabyddir bod prinder mewn rhai ardaloedd e.e. prinder lleoedd diogel i fenywod, mannau sych a gwlyb.
- Defnyddio llety a ddarperir gan grwpiau ffydd neu elusennau.
- Ystyried amrywiaeth eang o fathau o lety - e.e. cabannau gwyliau, ond nid cynwysyddion llongau na phodiau.

**iv/ Rhwystrau o ran y gyfraith**

- Ystyried dyletswyddau ailgartrefu yn ôl angen blaenoriaethol ac a oes ffordd o dreialu dull gweithredu gwahanol mewn rhai ardaloedd.
- Cydnabod mai'r ddeddfwriaeth yw "y gyfraith" ac nid galluogydd h.y. gallwch wneud mwy na'r gofynion sylfaenol.

**v/ Cydweithredu amlasiantaethol**

- Mabwysiadu dull gweithredu ar ffurf cynadleddau achos dyddiol.
- Ystyried cyllid ar gyfer swydd cydgysylltydd penodedig.
- Cyd-leoli timau.
- Dim rhyddhau i ddigartrefedd a'r hyn y gall hynny ei olygu yn y byrdymor h.y. gwell systemau atgyfeirio.
- Darparu allgymorth grymusol a mynych sy'n canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau lle ceir ymddiriedaeth er mwyn cartrefi pobl a darparu'r adnoddau sy'n galluogi hynny.

**vi/ Agweddau cyhoeddus a gweithio gyda'r gymuned leol**

- Helpu pobl i wneud pethau defnyddiol yn eu cymuned a chael gafael ar adnoddau lleol.
- Cynnwys y gymuned yn well e.e. rhoi pebyll i bobl ddigartref.

**vii/ Cysylltiadau â'r heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill**

- Cysylltu â chydweithredu rhwng asiantaethau.
- Defnyddio'r Ddeddf Crwydradaeth a Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.
- Mynd i'r afael ag agweddau.

**viii/ Stoc dai**

- Cysylltu â darpariaeth mewn argyfwng a defnyddio unedau gwag awdurdodau lleol/landlord cymdeithasol cofrestredig yn well dros y gaeaf.
- Ystyried yr hyn sy'n digwydd i lety dros dro ar ôl y gaeaf h.y. llety a ddarperir dros y gaeaf i sbarduno darpariaeth yn y tymor hwy.
- Cyflwyno Tai yn Gyntaf a phrosiectau tai eraill yn gynt.
- Cymorth a hyfforddiant priodol i ddarparwyr gwasanaethau.
- Ystyried dulliau o ddifyrru e.e. darparu cyrsiau.
- Darparu a gwerthuso data'n well, gan gynnwys monitro canlyniadau.

| |
|---|
| **Pwynt Gweithredu**: Gofynnwyd i PM a TS ystyried opsiynau gwerthuso posibl. |

<u>Cwestiwn 2</u>

**i/ Cyllid yn y tymor hwy**

- Symud i ffwrdd o gylch o ymrwymiadau cyllido am 1-2 flynedd.

**ii/ Llwybrau i ddianc rhag digartrefedd**

- Ni ddylai asiantaethau'r sector cyhoeddus fyth symud pobl i ddigartrefedd.
- Swyddog tai penodedig mewn carchardai a mannau eraill lle ceir pobl sy'n agored i niwed.
- Cyllido amlasiantaethol ar y cyd yn y tymor hwy.

**iii/ Cymorth cyflym**

- Cymorth i bobl nad ydynt yn ddigartref eto ond y mae pethau yn dechrau mynd o chwith yn eu bywydau – dylai fod yn ddyletswydd atgyfeirio i ddarparwyr llety.
- Gwell hyfforddiant a mwy o gyfeirio amlasiantaethol a chydweithio.

**iv/ Ailgartrefu'n gyflym**

- Mabwysiadu polisi o beidio â gosod pobl mewn hosteli, a datgomisiynu hosteli'n strategol yn y tymor hwy.
- Angen mwy o stoc ac angen defnyddio'r stoc bresennol yn well hefyd.
- Dylai darpariaeth cyllid tai Llywodraeth Cymru gynnwys cartrefu pobl sy'n agored i niwed.
- Dylid ei gwneud yn haws i newid caniatâd cynllunio.
- Rhoi gwell cymorth i denantiaid er mwyn helpu pobl i gael tenantiaethau a'u symud i mewn i rywbeth mwy addas a pheidio â'u troi allan h.y. os na all rhywun fforddio rhent mewn un ardal, efallai y bydd llety fforddiadwy mwy addas mewn ardal wahanol.
- Nodi arian sydd eisoes yn y system y gellir ei wario'n well ar fesurau atal.

**v/ Angen blaenoriaethol**

- Ystyried newidiadau deddfwriaethol er mwyn gallu cyflenwi'r math cywir o lety yn well.
- Her darpariaeth gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli.
- Ystyried modelau tai gwahanol (e.e. tai uned sengl) sy'n gysylltiedig â modelau mwy hyblyg o gyllid.
- Bil hawliau i bobl ddigartref.

Diolchodd JS i bawb am eu cyfraniad a dywedodd y câi'r naratif sy'n dod o'r sesiwn hon ei ddefnyddio i baratoi adroddiad drafft cyntaf i'w ddosbarthu i'r grŵp yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd angen i'r gwaith ar brofiad uniongyrchol, sy'n mynd rhagddo ochr yn ochr â'r gwaith arall, fwydo i mewn i'r adroddiad hefyd.